# Rheoli symudiadau pobl mewn digwyddiad

## Trosolwg

Mae'r Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon yn gosod y sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth i chi ddelio â phobl yn dod i mewn ac yn mynd allan o ddigwyddiad.

Mae'r safon hon yn ymwneud â'r gweithgareddau canlynol:

1.Rheoli pobl yn mynd i mewn i'r digwyddiad
2.Rheoli symudiadau pobl mewn digwyddiad
3.Rheoli pobl yn mynd allan o'r digwyddiad

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

**Rheoli pobl yn mynd i mewn i'r digwyddiad**

1.ymgyfarwyddo â'r safle a chynnal archwiliadau cyn-digwyddiad yn yr ardal rydych chi'n gyfrifol amdani
2.croesawu cwsmeriaid i'r digwyddiad yn unol â gweithdrefnau'ch sefydliad
3.monitro a chadw at y llwybr drwy'r system fynediad gyfan
4.sicrhau bod yr arwyddion yn gywir ar gyfer mynd i mewn i'r digwyddiad
5.rhoi gwybod am unrhyw ffactorau a fydd yn cael effaith negyddol ar y llif yn unol â gweithdrefnau'ch sefydliad
6.sicrhau bod y cyhoedd yn ciwio yn y fynedfa gywir
7.pennu hawliau mynediad i ardaloedd cyn y digwyddiad
8.defnyddio dulliau cyfathrebu effeithiol i sicrhau'r symudiad gorau
9.sicrhau llif briodol drwy fynedfeydd mewn ardal
10.talu sylw gofalus i'r ardal a ddynodwyd i chi drwy gydol cyfnod eich dyletswydd
11.caniatáu a gwrthod mynediad i bobl gan ddilyn polisïau a gweithdrefnau y cytunwyd arnynt
12.rhoi rhesymau clir i bobl pam eich bod yn gwrthod mynediad iddynt
13.rheoli'r ciwiau mewn ffordd ddiogel a threfnus
14.cyfeirio pobl at fynedfeydd eraill os oes angen
15.symud i amrywiol safleoedd am gyfnodau yn ystod digwyddiad
16.cynnig awgrymiadau cadarnhaol ar gyfer dod i mewn yn unol â gweithdrefnau'ch sefydliad mewn lleoliad
17.rhoi gwybod am fudo sydyn neu symudiadau annisgwyl mewn torf
18.monitro unrhyw arwydd o giw yn tyfu mewn lleoliad a rhoi gwybod am hynny
19.lleihau effaith unrhyw arwydd o giw yn tyfu mewn lleoliad

**Rheoli symudiadau pobl mewn digwyddiad**

20.monitro nifer y bobl yn ystod digwyddiad ac mewn ardaloedd dynodedig
21.monitro trwch y dorf a chapasiti yn ystod digwyddiad ac mewn ardaloedd dynodedig

**Rheoli pobl yn mynd allan o'r digwyddiad**

22.cynnal archwiliadau cyn-mynd allan yn yr ardal rydych chi'n gyfrifol amdani
23.monitro sefyllfa i weld bod pobl yn gadael yn ddiogel yn unol â gweithdrefnau'ch sefydliad
24.cymryd camau priodol i helpu i glirio pobl o'r safle
25.cael gwared ar unrhyw beth sy'n dylanwadu'n negyddol ar lif y bobl sy'n mynd allan
26.sicrhau nad oes neb yn dod i mewn wrth i bobl fynd allan
27.cyfeirio pobl at allanfeydd eraill os oes angen
28.cynnig awgrymiadau cadarnhaol ar gyfer mynd allan yn unol â gweithdrefnau'ch sefydliad mewn lleoliad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

**Gofynion cyfreithiol a gofynion y sefydliad**

1.deddfwriaeth, rheoliadau, codau ymarfer a chanllawiau perthnasol a chyfredol sy'n ymwneud â'r digwyddiad
2.yr ardal rydych chi'n gyfrifol amdani
3.eich rolau a chyfrifoldebau o fewn cynllun y digwyddiad
4.sut gall amodau amgylcheddol ddylanwadu ar gyflwr y tir
5.pam ei bod yn bwysig bod yn hyblyg a symud i amrywiol safleoedd yn ystod digwyddiad
6.eich amserlen ac am ba hyd rydych chi mewn llefydd penodol drwy gydol y digwyddiad
7.sgiliau rhyngbersonol perthnasol a sut i'w defnyddio'n effeithiol

**Rheoli pobl yn mynd i mewn i'r digwyddiad**

8.sut a pham ei bod yn bwysig cynnal archwiliadau cyn-digwyddiad yn eich ardal
9.polisïau ac amodau mynediad ar gyfer y lleoliad
10.llif y bobl a ddisgwylir
11.sut mae caniatáu mynediad i bobl gan ddilyn polisïau a gweithdrefnau y cytunwyd arnynt
12.pa arwyddion cywir sydd eu hangen ar gyfer mynd i mewn i'r digwyddiad
13.pa ffactorau a allai greu effaith negyddol ar y llif wrth fynd i mewn
14.polisïau a gweithdrefnau er mwyn rhoi gwybod i'ch goruchwyliwr am ddylanwadau negyddol ar y llif wrth fynd i mewn
15.lleoliad a chynllun mynedfeydd i'r safle
16.sut a pham ei bod yn bwysig sicrhau bod llif gyfartal o bobl yn mynd i mewn drwy bob mynedfa
17.sut mae rheoli ciwiau mewn ffordd ddiogel a threfnus
18.sut bydd ciwiau hir yn dylanwadu ar agwedd ac ymddygiad y dorf
19.'hawliau mynediad' i ardaloedd cyn y digwyddiad
20.sut a pham ei bod yn bwysig cadw mynedfa'n glir drwy fonitro'r gwaith o gael gwared ar sbwriel
21.sut a pham ei bod yn bwysig monitro deinameg torf a sylwi ar unrhyw fudo, symudiadau annisgwyl, arwyddion o drafferthion a thrwch mewn torf
22.sut a pham ei bod yn bwysig monitro a rhoi gwybod am unrhyw arwydd o giw yn tyfu i wasanaethau eraill yn y lleoliad
23.sut mae lleihau effaith unrhyw arwydd o giw yn tyfu mewn lleoliad
24.y gweithdrefnau i'w dilyn wrth wrthod mynediad
25.pam mae'n rhaid i chi roi rhesymau clir i bobl pam eich bod yn gwrthod mynediad iddynt
26.yr adwaith bosibl wrth wrthod mynediad i rywun
27.beth i'w wneud pan fydd y dorf yn dod i stop wrth ddod i mewn

**Rheoli pobl yn mynd allan o'r digwyddiad**

28.sut a pham ei bod yn bwysig cynnal archwiliadau cyn-mynd allan yn eich ardal
29.sut a pham ei bod yn bwysig monitro bod pobl yn gadael yn ddiogel gan ddilyn y gweithdrefnau y cytunwyd arnynt

30.camau priodol i helpu i glirio pobl o’r safle
31.sut mae cael gwared ar ffactorau negyddol ar lif y bobl sy’n mynd allan
32.sut a pham ei bod yn bwysig sicrhau nad oes neb yn dod i mewn wrth i bobl fynd allan
33.lleoliad a chynllun yr allanfeydd
34.beth i'w wneud pan fydd y dorf yn dod i stop wrth fynd allan
35.sut mae delio ag eiddo coll wrth i bobl fynd allan
36.sut mae delio â phobl sydd ar goll wrth i bobl fynd allan
37.gweithdrefnau’ch sefydliad ar gyfer cloi’r digwyddiad

SFSEVS7W

Rheoli symudiadau pobl mewn digwyddiad

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Security |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Maw 2013 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Maw 2016 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Security |
| **RCU gwreiddiol** | SFS EVS 7 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Addysg a hyfforddiant, Galwedigaethau Elfennol, Galwedigaethau Diogelwch Elfennol |
| **Cyfres/Set** | Gweithrediadau Diogelwch Digwyddiad |
| **Geiriau Allweddol** | diogelwch; digwyddiad; symudiadau pobl; mynd i mewn; mynd allan |